# Cynllun Datblygu Ysgol Gymraeg Trebannws Medi 2026 - Medi 2027 (Blwyddyn 3 o’r Targed)

| Blaenoriaeth 1 | Cwestiwn | **Creu dysgwyr uchelgeisiol ac hyderus drwy wella Sgiliau Ysgrifennu gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu**<br>**Arweinydd y Flaenoriaeth : Amy Hart**<br>**Aelod (au) Llywodraethol: Cllr R Phillips + Mr T Jones** |
|---|---|---|

| **Pam mae hyn yn flaenoriaeth - beth mae hunan werthusiad yn dweud wrthym fod eisiau gwella?** | | **Meini prawf llwyddiant – sut bydd y llwyddiant yn edrych ar ôl blwyddyn?** |
|---|---|---|
| Dengys systemau monitro bod angen parhau i roi cyfleoedd ysgrifennu trawsgwricwlaidd i'n disgyblion, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i asesu ar gyfer dysgu, gan gynnwys beirniadu eu gwaith eu hunain ac eraill i gywiro, uwch lefelu a chyfoethogi eu hysgrifennu.<br><br>**<u>Cyfnod Sylfaen</u>**<br><br>Sicrhau bod sgiliau ysgrifennu cynnar disgyblion yn cael eu datblygu drwy ddarparu gweithgareddau ymarferol ac ysgogol sy'n meithrin eu hyder, eu creadigrwydd a'u gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig.<br><br>Parhau i sefydlu heriau diddorol yn yr ardal ysgrifennu fel bod gan y disgyblion gyfle gwych i ymarfer ac ail-ymweld a sgiliau / patrymau iaith / genres.<br><br>Sicrhau bod disgyblion abl y dosbarth yn ysgrifennu’n estynedig yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm a denu mwy o blant i fynychu ardal ysgrifennu’r dosbarth. | | Sicrhau bod:-<br><br>• Hyder a brwdfrydedd disgyblion wrth ysgrifennu yn datblygu a gwella.<br><br>• Disgyblion yn parhau i ddatblygu a chymhwyso patrymau megis agoriadau, cysyllteiriau, technegau arddull ac atalnodi i ymestyn ac uwch lefelu brawddegau.<br><br>• Parhau i roi cyfleoedd i ysgrifennu’n estynedig yn drawsgwricwlaidd ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddibenion a chyfleoedd i ysgrifennu’n rhydd<br><br>• Disgyblion yn dysgu sut i fod yn feirniadol wrth asesu ar gyfer dysgu, a’u bod yn gwybod sut i adolygu, hunan-gywiro ac uwch lefelu eu hysgrifennu |

**Blwyddyn 3 a 4**

Sicrhau bod dulliau Geirio Gwych yn digwydd yn rheolaidd.

**Blwyddyn 5 a 6**

Sicrhau bod ystod eang o genres, yn enwedig rhai creadigol.

**LSC**

Sicrhau bod sgiliau ysgrifennu cynnar disgyblion yn cael eu datblygu drwy ddarparu gweithgareddau ymarferol ac ysgogol sy'n meithrin eu hyder, eu creadigrwydd a'u gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig.

Sicrhau bod y gallu i ysgrifennu brawddeg sy’n cyd-fynd a llun yn cael ei ddatblygu gyda’r rhai sydd â’r gallu.